



Sefydliadau gwirfoddol yn gweithio gydag unigolion, teuleodd a chymunedau



Gweithio ar gyfer sector gwirfoddol cadarn ac annibynnol yng Nghymru.

Mae Talwrn yn canolbwyntio ar dri maes craidd:

- herio a chefnogi seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru
- cefnogi meithrin gallu ac adnoddau gyda sefydliadau gwirfoddol a'r sector yn ei gyfanrwydd er mwyn datblygu llais cryfach, mwy hyderus, annibynnol
- cael rhagor o arian i ddod i Gymru o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusenol

Cyfleoedd digwyddiad

Mae Cyfranogaeth Cymru yn cynnal cwrs ar ddefnyddio egwyddorion gwerthuso mewn gwaith yn Amgueddfa Wrecsam ar 6 Chwefror. <https://tinyurl.com/y7votlz5>

Mae C3SC Caerdydd yn cynnal sesiwn briffio ar ysgrifennu cynigion tendro a chyllid ar 30 Ionawr a 27 Chwefror yn y drefn honno

<https://tinyurl.com/yb428zvt>

<https://tinyurl.com/ybolagq8>

Maent hefyd yn cynnig hyfforddiant ar oblygiadau trefniadol diogelu ar 22 Mawrth <https://tinyurl.com/ya8voow6>

Gall Talwrn roi cymorth mentora i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol. Rhowch wybod i ni os oes gennych ddi-ddordeb.

PWY YDYM NI?

Mae Talwrn yn cael ei arwain gan grŵp annibynnol o bobl sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol yng Nghymru ac yn rhannu dymuniad i weld y sector yn tyfu mewn nerth ac adeiladu ar ei allu a'i adnoddau i drechu tlodi ac anfantais mewn cymunedau ledled Cymru. Nid ydym yn sefydliad ffurfiol – nac yn bwriadu bod yn sefydliad ffurfiol, ond yn hytrach rydym yn strwythur i hyrwyddo cefnogaeth gan gymheiriaid a helpu'r rhai sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y sector gwirfoddol yng Nghymru i helpu ei gilydd.

CYSYLLTWCH

Talwrn
c/o People and Work
CMC@Loudoun
Plas Iona, Butetown
Caerdydd
CF10 5HW

Ffôn: 029 2048 8536

talwrn@peopleandwork.org.uk

Darllen diddorol

UK Poverty 2017: A comprehensive analysis of poverty trends and figures.

Rhagfyr 2017. Mae'r adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree yn adolygu cyfraddau tlodi yn y DU a sut y maent wedi newid dros y ddau ddegawd diwethaf yn ychwanegol at dynnu sylw at faterion cymorth sy'n lleihau gan y wladwriaeth, rhenti cynyddol a thlodi mewn gwaith. Mae hefyd yn trafod ysgogwyr allweddol tlodi a sut y gellid mynd i'r afael â hwy.

<https://tinyurl.com/y7vec2kh>

Tough times ahead?: What 2018 might hold for Wales.

Ionawr 2018. Yn yr adroddiad byr hwn mae Sefydliad Bevan yn cymryd golwg galed ond realistig ar ddisgwyliadau am y flwyddyn ar gyfer unigolion, cymunedau, cyrff cyhoeddus a busnesau sy'n seiliedig ar ragolygon arbenigol. Mae'r adroddiad yn ystyried effaith Brexit a chynhyrchiant isel ar gyflogaeth, safon byw, newid cymdeithasol a gwleidyddiaeth.

<https://tinyurl.com/yblmup9h>

Brexit and Fulfilling Work: Responding to Threats and Exploiting Opportunities.

Rhagfyr 2017. Mae'r adroddiad gan Ymddiriedolaeth Carnegie y DU yn trafod y rhwystrau i waith boddhaus yn y DU yn enwedig i'r grwpiau mwy difreintiedig. Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth a chyfweiliadau ag arbenigwyr annibynnol i gyflwyno'r materion a wynebir gan y DU a chynigion ar sut i fanteisio i'r eithaf ar rai o'r cyfleoedd.

<https://tinyurl.com/y7pjne5a>

Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd.

Rhagfyr 2017. Mae'r ymchwiliad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn edrych ar dystiolaeth o effaith unigrwydd ac unigedd ar iechyd corfforol a meddyliol yn enwedig ar bobl hŷn yng Nghymru. Mae'r ymchwiliad yn ystyried ffyrdd o fynd i'r afael ag unigrwydd a rôl y sector gwirfoddol wrth ymateb i'r angen am gymorth lleol ac wedi'i deilwra.

<https://tinyurl.com/y8k3mcas>

Supporting Local People and Local Places: Opportunities and Challenges for Welsh Towns.

Rhagfyr 2017. Mae'r adroddiad gan Carnegie UK Trust yn seiliedig ar themâu o ddwy drafodaeth ford gron a roddodd gipolwg ar faterion a chyfleoedd yng Nghymru o fewn polisiau ehangach.

<https://tinyurl.com/yd43892w>

Dyfodol Gwneud Lles yng Nghymru.

Ionawr 2018. Adroddiad gan Sefydliad Bevan ar gyfer y Loteri Genedlaethol sy'n defnyddio cyfweiliadau ac ymgynghoriadau â phobl o'r trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn edrych ar sut mae 'gwneud lles' yn newid yng Nghymru a'r heriau sy'n wynebu'r sector gwirfoddol, gan ddadlau 'efallai fod yr amser yn iawn yn awr i roi ymdrech gydunol i feithrin gwydnwch y trydydd sector.

https://www.bevanfoundation.org/publications/future_of_doing_good/

Rhowch wybod i ni os ydych wedi darllen unrhyw beth yn ddiweddar y credwch y byddai'n ddefnyddiol i eraill.

Canolbwyntio ar Gyllidwyr

Mae **Elusen Henry Smith** yn ymddiriedolaeth grantiau annibynnol a sefydlwyd yn 1628 gan Henry Smith, gyda'r nod o "sicrhau newid parhaol i fywydau pobl gan eu helpu i gael budd o gymdeithas a chyfrannu ati". Dyma un o'r gwneuthurwyr grantiau mwyaf yn y DU, gan ddsbarthu £28 miliwn yn 2016.

Y ddwy raglen grant fwyaf yw [Gwella Bywydau](#) a [Cryfhau Cymunedau](#). Mae'r wefan <https://www.henrysmithcharity.org.uk> yn rhoi manylion am strategaeth gyllido'r elusen. Maent yn cynorthwyo sefydliadau sefydledig sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i fuddiolwyr sy'n dangos hanes o lwyddiant, ac sy'n rhoi tystiolaeth o effeithiolrwydd y gwaith.

Mae Gwella Bywydau yn darparu grantiau i sefydliadau elusennol bach a chanolig eu maint yn y DU i gynorthwyo prosiectau a chostau rhedeg sefydliadau sy'n helpu pobl pan nad yw ffynonellau eraill o gymorth ar gael. Mae Cryfhau Cymunedau wedi'i gynllunio i gynorthwyo sefydliadau elusennol bach sy'n gweithio ar lawr gwlad. Drwy'r rhaglen grant hon mae'r ymddiriedolaeth 'am sicrhau bod ein cyllid yn cyrraedd ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU'. Gall y cyllid am y ddwy raglen fod rhwng £20k a £60k y flwyddyn am 1-3 blynedd.

Sefydlwyd **Sefydliad Paul Hamlyn** gan Paul Hamlyn yn 1987 gan greu un o'r sefydliadau grantiau annibynnol mwyaf yn y DU. Eu cenhadaeth yw helpu pobl i oresgyn anfantais a diffyg cyfle, er mwyn iddynt allu gwireddu eu potensial a mwynhau bywydau boddhaus a chreadigol. Mae ganddynt ddiddordeb penodol mewn cynorthwyo pobl ifanc ac yn credu'n gryf ym mhwsigrwydd y celfyddydau.

Cafodd strategaeth DU bresennol y Sefydliad ei lansio ym mis Mehefin 2015 a gellir ei gweld ar eu gwefan <https://www.phf.org.uk/>. Mae'n canolbwyntio ar chwe blaenoriaeth strategol:

- Meithrin syniadau cyffrous
- Ehangu mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau
- Gwella addysg a dysgu pobl drwy'r celfyddydau
- Dangos bod y celfyddydau'n gwneud gwahaniaeth i fywyd pobl
- Cynorthwyo sefydliadau sy'n buddsoddi mewn pobl ifanc a newid cadarnhaol

Gwella cymorth i bobl ifanc sy'n ymfudo, a chryfhau integreiddio

Canolbwyntio ar Partneriaeth Parc Caia Cyf

Mae Caia Park Partnership Ltd (CPP) yn sefydliad o dan arweiniad y gymuned, menter gymdeithasol ac elusen ym Mharc Caia yn Wrecsam. Mae'n gweithio gydag unigolion, cymunedau a sefydliadau partner i ddarparu gweithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n diwallu anghenion cymunedol a nodwyd. Mae'r Bartneriaeth wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y gymuned. Yn sail i hyn mae uchelgais i alluogi pobl a chymunedau i gyflawni eu potensial, yn enwedig y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf.

Ymhlith enghreifftiau o'r gwasanaethau a ddarperir gan CPP mae:

Teulu a phlant - amgylchedd hwyl, gofalgar ac addysgol i gynorthwyo datblygiad cymdeithasol ac addysgol plant yn ogystal â darparu gofal plant a chyfleusterau o ansawdd uchel, fforddiadwy i blant.

Pobl Ifanc - darpariaeth mewn

canolfan a gwaith ieuencid ar wahân i bobl

ifanc yn ogystal â chyngor a chymorth i roi hyder i bobl ifanc ac i ennill sgiliau newydd. Darperir cymorth i helpu pobl ifanc i lwyddo'n addysgol, cael mynediad i hyfforddiant a sicrhau cyflogaeth.

Tai - cyngor a chymorth a galluogi gwasanaethau mynediad yn ymwneud â chyngor ar hawliau lles, dyledion neu ddigartrefedd.

Mentrau cymunedol Wrecsam - cangen fasnachu CPP yw WCE gyda nifer o ficrofusnesau, mae WCE yn darparu gwasanaethau cymunedol cynaliadwy tra'n darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol. Mae'r rhain yn gwbl hunangynhaliol a chaiff unrhyw elw a wneir ganddynt ei fuddsoddi mewn gweithgareddau elusenol sydd o fudd i Barc Caia a Wrecsam gyfan.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan: <https://caiapark.org.uk/>

